

Ein Taflenni Addysg

Mae amgueddfa Storiel yn dwyn ynghyd gasgliadau hanes cymdeithasol o bob rhan o'r gogledd, gyda phwyslais arbennig ar Wynedd. Mae'r taflenni gwybodaeth addysg hyn yn canolbwyntio ar yr arteffactau yn Storiel a'u lle o fewn cyd-destun hanesyddol ehangach. Mae'r taflenni gwybodaeth yma'n addas ar gyfer cefnogi nifer o weithgareddau addysgol / ymchwiliol.



Y Cwricwlwm Newydd

Bydd y Cwricwlwm newydd i Gymru yn cael ei yrru gan bwrpas yn hytrach na'i yrru gan gynnwys. Nid oes 'rhaglenni astudio' fel sydd yn y cwricwlwm presennol a bydd llai o ragnodi o'r hyn y mae'n rhaid ei ddysgu. Mae'r drafft Maes Dysgu a Phrofiad (MDPh) yn nodi ei fod yn cefnogi dysgwyr i: **'ddatblygu dealltwriaeth o Gymru a datblygu eu hymdeimlad eu hunain o Gymreictod/yr hyn y mae'n ei olygu i fod yn Gymry'** drwy canolbwyntio ar yr ardal leol, Cymru a'r byd ehangach yn y gorffennol a'r presennol.

Astudiaethau Lleol

Yn naturiol, bydd astudiaethau lleol yn ymgorffori elfennau hanesyddol. Gall defnyddio'r ardal leol fel ffocws ar gyfer dysgu wasanaethu pynciau gwahanol yn naturiol. Mae'n amhosib astudio'r presennol heb sylwi ar agweddau o'r gorffennol sy'n ein hamgylchynu ymhob man. Mae astudio hanes lleol yn cynnwys daearyddiaeth bob amser, ynghyd â defnyddio mapiau a chynlluniau ac edrych ar anheddiad a newid, ynghyd â dysgu am greddau ac agweddau pobl yn y gorffennol.

Themâu

Gall prif themâu, megis 'Bwyd' neu 'Adeiladau' arwain at bynciau traws-gwricwlaidd da sy'n cael eu harwain gan hanes a all gymharu a gwrthgyferbynnu â nifer o wahanol gyfnodau mewn hanes. Wrth edrych ar y thema 'Ysgol', gallem ymgorffori hyn gan ddefnyddio ein harteffactau a'n taflenni gwybodaeth ar 'Yr Ysgol Fictoriaidd' a'r 'Clio' fel ffynonellau gwybodaeth ar ddulliau addysg yn y gorffennol.

Gall themâu hanesyddol ddarparu llawer o ysbrydoliaeth ar gyfer datblygu llythrennedd. Ystyriwch ysgrifennu stori neu ddyddiadur o safbwynt person sy'n byw mewn oes benodol mewn hanes, llythyr adref o safbwynt plentyn faciwi yn ystod yr Ail Ryfel Byd, neu ddyfyniad o ddyddiadur a ysgrifennwyd gan blentyn yn ystod oes Fictoria.

Ein Taflenni Addysg

Cwestiynau Allweddol

Gallai fod yn ddefnyddiol ystyried cwestiynau allweddol pan ydych yn ymdrin â phwnc. Er enghraifft, drwy edrych ar y Celtiaid a'r Rhufeiniaid, dyma rai o'r cwestiynau allweddol posib:

- Sut wnaeth y Rhufeiniaid gadw rheolaeth dros eu Hymerodraeth?
- Beth oedd y Celtiaid yn credu ynddo?
- Beth oedd rolau dynion a merched?
- Sut oedd y Celtiaid yn tyfu eu bwyd eu hunain? Sut mae Cymru yn cynhyrchu bwyd heddiw?
- Sut oedd aneddiadau Celtaidd yn wahanol i aneddiadau Rhufeinig?

Creadigrwydd

Mae edrych ar arteffactau o gyfnod penodol mewn hanes ac ail-greu eu fersiynau eu hunain yn rhoi cyfle i ddysgwyr archwilio arteffactau mewn mwy o fanylder a chael eu hysbrydoli ganddynt. Mae defnyddio technegau hanesyddol traddodiadol i greu gwrthrychau newydd hefyd yn ffordd dda o ddod â hanes yn fyw. Mae creu potiau clai (Y Celtiaid) neu deils addurniadol (Y Normaniaid), creu dyluniadau ar lechi (Llechi Cerfiedig Cymreig) neu ail ddefnyddio deunyddiau i greu rhai newydd (Dogni) yn rhai o'r gweithgareddau creadigol sy'n cysylltu'n dda â'n taflenni gwybodaeth.

Ar ôl ymchwilio, dylid ystyried:

- Beth maent wedi ei ddysgu?
- Sut maent wedi ei ddysgu?
- Pa dystiolaeth sydd ganddynt?
- Ffaith neu farn?

Syniadau ar gyfer cyflwyno gwybodaeth:

- Cyflwyniad llafar
- Cyflwyniad amlgyfrwng (TGaCh)
- Cyflwyniad ysgrifenedig.
- Llinell amser digwyddiadau / datblygiadau hanesyddol
- Gwaith celf a chrefft – e.e. lluniau, modelau
- Ymateb credigol, e.e. barddoniaeth, drama neu chwarae rôl



Gall defnyddio arteffactau go iawn fel man cychwyn ddod â hanes yn fyw a gwneud y dysgu'n fwy ystyrlon ac atyniadol. Mwynhewch!